Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Ysgol y Llys

**Ysgol y Llys**
**Princes Avenue**
**Prestatyn**
**LL19 8RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Ysgol y Llys

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ysgol y Llys |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sion Jones |
| Person â gofal | Helen Gilmore, Ann Begley |
| Nifer y lleoedd | 60 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 32 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 26 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00yb tan 18.00yh. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma ei arolwg cyntaf |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/06/2024 |
| Lleolir Cylch Meithrin Ysgol y Llys a'r safle ysgol lle maent yn cynnig lleoliad gofal dydd llawn. Mae'r sesiwn addysg yn cael ei ddarparu yn ystod y bore tra bod y lleoliad hefyd yn cynnig sesiynau brecwast, meithrin mwy, ar ôl ysgol a sesiynau Dechrau'n Deg.<br><br>Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg gartref. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn holi'r plant yn effeithiol er mwyn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain a datblygu eu syniadau ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau ac hymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu ymysg ei gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson a mwynhau’r rhyddid i symud o amgylch wrth archwilio ardaloedd eang yr ardd, neu symud i ardal chwarae mewnol. Mae bron bob un plentyn yn hyderus i fynd at ymarferwyr neu ymuno â grŵp o ffrindiau yn ôl eu dewisiadau. Maent yn gyfforddus i helpu eu hunain i adnoddau gan eu bod yn gwybod bod ganddynt y rhyddid i wneud hynny. Er enghraifft, mae’r plant yn cael mwynhad wrth arbrofi yng ngardd y tylwyth teg ac wrth gymdeithasu yn yr ardal chwarae rôl a darganfod adnoddau’r ardal marcio. Maent yn gartrefol i ofyn am gymorth i sychu trwyn, gwisgo esgidiau, newid dillad a defnyddio gwahanol offer.

Mae bron bob un plentyn yn setlo’n gyflym, ac wrth gyrraedd, yn mynd ati yn frwdfrydig i chwarae a chymdeithasu. Maent yn ymdopi’n dda ac yn teimlo’n ddiogel wrth fynd at ymarferwyr, eistedd wrth eu hymyl a pharatoi am drefn cyfarwydd y dydd. Mae bron bob un plentyn yn datblygu perthnasau cynnes gyda’r ymarferwyr ac yn hyderus i alw eu henwau pan mae angen sy’n dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth, eu cynefin a’u ffrindiau. Er enghraifft, yn ystod amser cofrestru, mae’r plant yn sgwrsio’n hapus am eu teimladau a’u profiadau wrth enwi aelodau o’u teulu. Mae’r plant hefyd yn cael cyfleoedd i fynd adre a chês bach llawn adnoddau, fel rhan o weithgaredd siaradwr Cymraeg yr wythnos ac yn llenwi llyfr gyda lluniau o’u profiadau gyda’u teuluoedd.

Mae bron bob un plentyn yn rhyngweithio’n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu wrth chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill wrth ddysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, yn yr ardal

ailgylchu, mae grŵp o blant yn astudio safle ailgylchu ar lechen electroneg cyn mynd ati yn weithgar i lenwi lorïau sbwriel ag adnoddau ailgylchu. Wrth sgwrsio, maent yn rhannu adnoddau fel poteli plastig a chardfwrdd ac yn datrys y broses o wahanu. Mae bron bob un plentyn yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, wrth rannu offerynnau cerdd i ffurfio band. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr wrth iddynt ddangos yr hyn y gallent ei gyflawni, megis gwthio berfa, sgubo'r ardal allanol a pheintio ffens gyda brwshys mawr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn diddori wrth arbrofi gyda thoes, yn creu anifeiliaid y môr, ac yn meistroli sgiliau newydd gyda roleri a thorwyr. Maent yn dangos boddhad wrth ymgolli yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae rôl, mae grŵp o blant yn mwynhau cwmni ymarferydd tra'n paratoi crempog a sgwrsio am wyau, llefrith a sut i gymysgu a choginio. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd, er enghraifft, yn y goedwig, maent yn defnyddio chwyddwydrau i edrych am fwystfilod. Tu allan ar yr iard, mae grŵp o blant yn mwynhau'r profiad o weld ymarferydd yn gorwedd ar y llawr ac yn creu amlinelliad o'i hamgylch gyda sialc tra'n sgwrsio am bobl o wahanol faint.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt olchi a sychu eu dwylo, defnyddio'r tŷ bach a brwsio eu dannedd. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau fel helpu gosod eu esgidiau glaw nôl ar yr uned storio 'sgidiau a thaenu menyn ar eu craceri yn ystod amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da. Mae bron pob un plentyn yn ymuno'n frwdfrydig wrth ganu caneuon a hwiangerddi Cymraeg. Maent yn dangos diddordeb a mwynhad wrth wylio rhaglen deledu Cymraeg ac yn eistedd ar y mat a chanolbwyntio'n hynod dda am gyfnod estynedig. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus wrth symud o un weithgaredd i'r llall. Er enghraifft, maent yn dod a'u chwarae i ben yn brydlon er mwyn ymgynnull ar y mat ar gyfer amser stori.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar. Mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n naturiol wrth chwarae'n ddigymell wrth baratoi paned a bwydo'r babi yn y gegin. Maent yn ymddwyn fel darllenwyr wrth ymlacio ar y soffa ac edrych ar lyfrau stori adnabyddus. Maent yn pwyntio at luniau a dweud stori eu hunain cyn mynd ymlaen i ddewis storïau eraill yn annibynnol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol wrth ddefnyddio offer paentio i wneud marciau cynnar. Mae llawer o blant yn dangos hyfedredd gan ddefnyddio offer mawr a bach wrth greu sêr gyda thoes a chydbwyso wrth gerdded ar hyd boncyff. Maent yn herio medrau corfforol ei gilydd yn naturiol drwy redeg, gwthio a rasio cerbydau o gwmpas yr ardal tu allan.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol wrth archwilio lliwiau a siapiau mewn llyfrau ac wrth chwarae gemau. Yn ystod eu chwarae, mae bron pob un yn sylwi ar ac yn dangos diddordeb mewn

rhifau. Er enghraifft, maent yn gofyn am chwarae gyda’r cloc ac yn symud bysedd y cloc i amser snac.

Mae ychydig o blant yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, wrth adeiladu tŵr o flociau maent yn dewis ystod o flociau gwahanol maint a siâp i greu tŵr uchel.

Mae bron pob un o’r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol wrth greu gwaith celf yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dewis lliw ac offer i greu lluniau o anifeiliaid y môr ar bapur ac ar sgrîn ddigidol. Mae medrau digidol ychydig o blant yn datblygu’n dda. Maent yn medru mewnbynnu cyfarwyddiadau’n effeithiol er mwyn rheoli teganau i symud at siapiau 2D ar y mat.

Yn yr awyr agored, mae’r plant yn dangos mwynhad wrth archwilio’r goedwig ac yn gofyn am ddringo coed fel wiwer o’r stori. Mae bron pob un plentyn yn cydweithio’n effeithiol ar helfa drychfilod gyda llawer yn ymgeisio i ddefnyddio’r eirfa Gymraeg i enwi’r trychfilod.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a’u diogelwch yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol ac mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac i weinyddu meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn dilyn arferion glendid priodol yn ystod cyfnodau byrbryd a rhwng gweithgareddau wrth iddynt annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd i’r plant wrth ddilyn polisi newid clytiau ac yn cadw cofnodion cywir. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy rhwydweithiau effeithiol. Maent yn dilyn systemau cofrestru trwyadl a threfnus ac yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae perthynas annwyl yn bodoli rhwng ymarferwyr a’r plant ac maent yn trin y plant â gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn garedig ac yn modelu rhyngweithiadau cynnes a naturiol wrth ddysgu plant i ddefnyddio dwylo caredig a chael hwyl wrth chwarae a rannu. Maent yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd gofalgar a thyner sydd yn creu teimlad o berthyn. Maent yn canmol yn gyson ac yn adnabod gofynion y plant wrth eu hannog i lwyddo, er enghraifft wrth iddynt rannu neu gyflawni tasg. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu iaith glir a chywir wrth sgwrsio a chanu am arferion y dydd. Maent yn cynnig cysur a chefnogaeth gyson i’r plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda’r plant yn ystod gweithgareddau neu’n chwarae wrth eu hymyl yn yr ardaloedd dysgu, gan wreiddio moesau fel cwrteisi mewn ffordd naturiol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion a’u dymuniadau unigol. Maent yn annog plant i fod yn hyderus wrth iddynt ddyfalbarhau i ddatrys problemau fel adeiladu tŵr, ac yn dathlu pan maent yn llwyddo. Er enghraifft maent yn tynnu lluniau’r plant er mwyn cofnodi a rhannu eu cyflawniadau mewn llyfrau arbennig sy’n nodi cynnydd y plentyn. Mae ymarferwyr yn sicrhau profiadau amrywiol sy’n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft,

maent yn darparu cyfleoedd arloesol i blant fwynhau storïau lle mae plant yn cael boddhad llwyr wrth wrando a chyfrannu. Mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch y plant a'u cefnogi i fentro. Maent yn annog plant i ddeall eu hamgylchedd wrth gael profiadau helaeth megis dysgu am fyd natur yng Nghoedwig y Llys a phlannu blodau, llysiau a ffrwythau yn yr ardd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut mae'r plant yn dysgu drwy archwilio a chwarae. Mae naws hynod ofalgar i'r lleoliad lle mae ymarferwyr yn wir adnabod y plant. Mae ymarferwyr yn gwrando ar lais y plant a chaiff profiadau dysgu eu cynllunio ar sail yr hyn a glywir. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn creu pasbort unigol i'r plant ac yn archwilio glôb o'r ddaear ar ôl sgwrs am fynd ar wyliau haf. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol o adael i blant arwain eu dysgu drwy gydol y dydd. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddilyn eu diddordebau.

Mae ymarferwyr yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cynnig cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau sylfaenol, yn enwedig eu medrau rhifedd. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fesur, cyfrif a chyfateb yn yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft mae ymarferwyr yn gosod cloriannau digidol a chydbwyso yn y gegin fwd yn ogystal â'r gegin ardal cartref tu fewn. Mae ymarferwyr yn darparu casgliad o lyfrau ffeithiol a ffuglen perthnasol i'r plant yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan.

Mae ymarferwyr yn annog plant i drin pethau byw â gofal a pharch drwy arddio. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol i annog plant i ddeall rheolau ymddygiad syml megis rhannu teganau a chymryd tro. Maent yn dathlu amrywiaeth drwy storïau a chwarae gyda dolis amrywiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant drafod eu teimladau mewn grwpiau bach a thrwy lyfrau addas yn y gornel dawel.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau cyfathrebu plant. Er enghraifft maent yn defnyddio sbardunau amrywiol megis stori, helfa, mygydau a rhestr i annog plant i ddarganfod am drychfilod yn y goedwig. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r ymarferwyr yn gyson holi'n effeithiol i herio'r plant er mwyn datblygu'r dysgu. Maent yn cymell y plant yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau corfforol tu fewn a thu allan. Er enghraifft maent yn annog y plant i ddefnyddio rhwydi i bysgota ac i rolio peli toes gyda'i dwylo. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i'r holi'r plant er mwyn eu hannog i feddwl a datblygu eu syniadau ymhellach.

Mae arweinwyr yn annog ymarferwyr i ddefnyddio patrymau iaith a geirfa i drochi'r plant yn effeithiol yn y Gymraeg. Maent yn trefnu profiadau pwrpasol i ddathlu eu Cymreictod megis gwisgo coch i gefnogi'r tîm pêl-droed cenedlaethol a dawnsio i gerddoriaeth Cymreig ar ddydd Miwsig Cymru. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol drwy ymweld â'r capel lleol a chreu pabis coch ar ddiwrnod y cofio.

Mae'r gweithdrefnau arsylwi ac asesu yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i gynllunio profiadau gwerthfawr i'r plant. Mae ymarferwyr yn

rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gynnydd a diddordebau eu plant.

## Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ac mae ganddynt weithdrefnau cyrraedd a gadael cadarn. Maent yn darparu giatiau i ardaloedd allanol sy’n cael eu defnyddio’n effeithiol ac mae ymarferwyr yn cydweithio’n ofalus i sicrhau bod yr ymarferion hyn yn weithredol. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi ar safle’r ysgol a’r lleoliad a chedwir cofnodion clir o bob ymweliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol ac mae swyddog diogelu’r lleoliad yn gweithio’n effeithiol gyda’r ymarferwyr i sicrhau bod ymarferion diogelu yn rheolaidd a phwrpasol. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol. Mae rhain yn cael eu hadolygu’n rheolaidd a’u defnyddio mewn modd prydlon ac effeithiol, megis cofnodi unrhyw offer sydd angen ei atgyweirio ar frys. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau cymarebau cywir ar bob adeg.  Maent yn cynnig byrddau gwybodaeth tu fewn i’r lleoliad ac ar waliau allanol sydd yn arddangos tystiolaeth clir am ymarferwyr, cyfrifoldebau, polisïau, tystysgrifau a gweithdrefnau diogelu priodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sydd yn groesawgar a chynnes. Maent yn cynnig diogelwch, preifatrwydd a lle digonol ar gyfer y nifer o blant sydd yn mynychu’n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid clytiau pwrpasol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r cyfleusterau megis, prif ystafell, ardal paratoi byrbrydau, swyddfa ac ardaloedd allanol caeedig. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad i adnoddau er mwyn hybu eu annibyniaeth. Maent yn darparu amgylchedd tu fewn sy’n cynnig mynediad parhaus i blant gael chwarae ynghyd ag amgylchedd allanol cyffrous, sy’n cynnig ystod o arwynebau. Er enghraifft, mae’r plant yn mwynhau chwarae ar lwybrau anwastad i’r ardd, llwyfan ar gyfer perfformio a thwnnel i’r ardal adeiladu, sy’n cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol i blant ar gyfer eu datblygiad a’u hoedran, ac yn eu gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i gyfarpar o safon uchel, sydd yn eu galluogi i ddewis a dilyn eu diddordebau. Tu fewn, mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd di-ri i blant ddatblygu eu dychymyg wrth gael profiadau i brofi adnoddau go iawn fel peiriant cymysgu, powlenni a sosbenni. Tu allan, mae arweinwyr wedi datblygu gardd lle mae plant yn cael cyfleoedd cyfoethog i fwynhau garddio, arbrofi a defnyddio offer go iawn fel bwcedi, offer cario a mesur.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir sy’n cael ei rhannu’n effeithiol iawn gyda’r holl rhanddeiliaid. Maent yn llwyddo i greu ethos cefnogol a chynhaliol lle mae ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi. Mae’r holl ymarferwyr yn cydweithio’n hynod effeithiol o dan arweinydd cadarn er mwyn creu awyrgylch gartrefol ac ysgogol ar gyfer y plant. Maent yn cynllunio’n strategol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu’u medrau Cymraeg. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad.

Mae arweinwyr wedi dirprwyo dyletswyddau’n effeithiol iawn ac yn cydweithio’n ardderchog fel tîm. O ganlyniad, mae rolau wedi eu diffinio’n glir ac mae

gweithdrefnau cadarn yn eu lle i nodi cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r arweinydd yn agored iawn i dreialu systemau er mwyn gwella'r gwasanaeth. Maent yn gweithredu'n llwyddiannus ar ôl derbyn barn rhanddeiliaid ar er mwyn hyrwyddo gwelliant gwelliannau yn y ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol i ofalu am y plant. Mae arweinwyr yn cwblhau arfarniadau blynyddol ar berfformiad ymarferwyr gan gynnwys hunan arfarniadau. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid, gan gynnwys grantiau, yn hynod effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth gan ystyried eu blaenoriaethau. Enghraifft arbennig o hyn yw buddsoddi mewn cegin fwd a chwpwrdd ar gyfer yr ardal tu allan yn ogystal a chotiau, hetiau ac esgidiau glaw i'r ymarferwyr.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gydag ymarferwyr a'r pwyllgor a chedwir cofnodion trylwyr. Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli rhwng y lleoliad a'r ysgol, sy'n rhannu'r un safle. Mae'r lleoliad yn cymryd rhan mewn driliau diogelwch rheolaidd gyda'r ysgol ac yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau fel mabolgampau ac ar amserlen ar gyfer defnyddio'r coetir. O ganlyniad, mae trefniadau pontio yn hynod esmwyth ac yn sicrhau bod y plant yn hyderus wrth symud ymlaen i'r cam nesaf y neu haddysg.

Mae arweinwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gynnydd eu plant ac am ddigwyddiadau, drwy sgyrsiau dyddiol, drwy ap cyfrwng digidol a boreau agored. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gofal unigol ac arbenigol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer eu plant.

Mae arweinwyr wedi meithrin cysylltiadau parhaus a chadarn gydag amrywiaeth o bartneriaethau. Er enghraifft gwahoddir ffermwr lleol a'r gwasanaeth tân i'r lleoliad er mwyn i'r plant ddysgu am eu gwaith. Yn ogystal, mae'r plant yn cael cyfle i ymweld â'r swyddfa bost i ddanfon llythyr a mwynhau prynu ysgytlaeth blasus yn y caffi.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06 Awst 2024